

PERTHYN

Hydref 2026

351



Troi'r llanw ar chwalfa byd natur trwy ddarganfod ein perthynas â'r greadigaeth a rhyfeddu unwaith eto at y Grym cariadus a'i creodd.

Gair gan y Gweinidog

Teithio oeddwn i, ar y ffordd i'r Drennewydd i eisteddiad Henaduriaeth Mid Wales and Borders, ac yn gwrandio ar Radio Cymru. Eitem ddifyr ar y Genhedlaeth Z yn ffafrio e-byst yn hytrach na chanu cloch y drws ffrynt!

Gadewch i mi esbonio. Cenhedlaeth Z yw'r rhai gafodd eu geni ganol a diwedd y nawdegau hyd at ddechrau degawd gyntaf yr unfed ganrif ar hugain. Cenhedlaeth gyda'u ffordd arbennig o fyw ac felly o feddwl. Mewn cymhariaeth, fel elwir fy ngenhedlaeth i yn Genhedlaeth X sef y rhai gafodd eu geni rhwng y chwedegau a dechrau'r wythdegau ac fel gyda Cenhedlaeth Z, fe fyddai'n wir dweud bod nodweddion penodol yn perthyn i'r genhedlaeth honno hefyd.

Beth bynnag! Fe aeth yr eitem ymlaen i drafod AI a gyda hynny realiti technoleg yn ein byw pob dydd. Trafodaeth ddifyr, yn cwmpasu'r ddealltwriaeth bod bywyd yn gyffredinol yn newid, a gyda hynny ein hymateb i'r newid yma.

Gadewch i mi esbonio ymhellach. Beth amser yn ôl, cyfeiriais at AI fel cyfrwng newydd i ddarganfod gwybodaeth, ond nid yn unig hynny, yn gyfrwng creu. Gall teipio cais am wybodaeth arwain at greu dogfen o'r newydd a hynny heb fewnbwn gallu ac ymchwil bersonol. Er fy mod yn simplistic yn fy nealltwriaeth, y mae hyn yn arwain at realiti gwybodaeth tu hwnt i allu dynol, boed yn wir neu ddim, ac yn dilyn, y ffordd y mae rhywun yn delio gyda'r gwirionedd hwnnw.

Yn ddifyr iawn, dyna un o'r materion yn yr eisteddiad yn y Drennewydd, gyda sylw arbennig i'r hyn sy'n wirionedd. Cafwyd adroddiad gan un o'n gweithwyr ac ym mhlyg yr adroddiad yna, canllawiau ar sut mae rhywun yn delio ac yn ymateb i AI. Un o'i sylwadau canolog oedd y geiriau "beth sy'n wir a beth sydd ddim" ac yn adlewyrchiad o realiti y 'cyfryngau' gan gynnwys y 'cyfryngau

cymdeithasol'. Bu iddi nodi ffurf posibl o ymateb i'r cyfan a gyda hynny, tanlinellu bod galw arnom i fyw gyda'r newid mawr yma ac i ymateb yn adeiladol i'r cyfan. Fe all ein hatebion ar adegau fod yn ystrydebol a di-gynnig, y math o ddweud, "mewn byd sy'n newid, rhaid i ninnau newid hefyd!" Yn hytrach, yr hyn sy'n allweddol yw ein mewnbwn fel pobl sy'n credu, i'r newid hwnnw.

Wrth deithio gartref y prynhawn hwnnw, ac wedyn, dwi wedi meddwl llawer am hynny. Unai delio gyda'r cyfan trwy encilio a dal gafael yn y cyfarwydd neu cydied yng nghyrn bywyd heddiw.

Os dwi'n onest, mae'r cyntaf yn demtasiwn ac yn beth 'braf', ond gyda'r ail, fe elwir am ddewrder a chryfder ffydd, yn galw arnom i rannu yr hyn sy'n deillio o'n ffydd a hynny yn ysbryd y 'newydd' wastad!

Beth sydd ganddo ni i'w ddweud? Mewn byd sy'n ei chael hi'n anodd weithiau i wahaniaethu rhwng y 'gwir' a'r 'anwir', beth sy'n wir a beth sydd ddim, ein bod yn dal gafael ar y ddealltwriaeth o Dduw yng Nghrist, a cheisio byw yr atebion yn ysbryd y 'bywyd newydd' sydd i'w gael yng ngweithred ffydd.

I mi, dyna sy'n fy nghynorthwyo i ddeall yr hyn sy'n wirionedd mewn bywyd. Y mae'r atebion i'w cael mewn cyflawnder wrth geisio adnabod a dilyn yr Iesu o ddydd i ddydd a'i adnabod yn ei berson, ei weinidogaeth, ei ddiodefaint, ei farwolaeth a'i atgyfodiad, a bod yn barod i gydnabod mewn gwyleidd-dra, weithiau dwi'n deall, weithiau dwi ddim, ond dwi'n dal i ymdrechu! Neu gobeithio felly!

Fe gaiff Llythyr at yr Effesiaid y gair olaf – 'Ond nid felly yr ydych chiwi wedi dysgu Crist, chiwi sydd, yn wir, wedi clywed amdano ac wedi eich hyfforddi ynddo, yn union fel y mae'r gwirionedd yn Iesu.'

Mae'r tywydd yn troi!

Eifion.

Newyddion

Cofion

Anfonwn ein cofion at ein aelodau a'n cyfeillion sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi ac mewn cartrefi gofal, yn benodol y mis hwn at Richard Rowlands a Dolig Farrell a fu yn yr ysbyty yn ystod yr Haf ond sydd wedi dychwelyd adref erbyn hyn ac at Marlene Gealey sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â theulu a chyfeillion Mrs. Glenys James a fu farw yng Nghartref Cwmcynfelyn yn ddiweddar. Cynhaliwyd yr angladd yng Nghapel y Morfa ar ddydd Llun, Medi 21ain.

Cydymdeimlwn hefyd â Eluned a Ieuan Jones, Bronant a'r teulu ar farwolaeth brawd Ieuan, sef Mr. Gareth Jones, Blaenpennal. Roedd hefyd yn gefnder i David Alun Jones.

Cydymdeimlwn â Llinos a Huw Bonsall ar farwoleth Rhys Bonsall, brawd Huw yng Nghaerdydd hefyd ar farwolaeth Linda Bonsall, chwaer-yng-nghyfraith Huw yn Aberystwyth.

Yn dilyn marwolaeth Mr. J. Daniel yn ddiweddar, trist yw cofnodi marwolaeth ei briod, Mrs. Megan Daniel yn Hafan y Waun.

Cydymdeimlwn â'u plant - Jocelyn a Robert a'r teulu oll.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i John a Siân Davies ar enedigaeth eu wŷr, sef lanto - mab i Anest a'i chymar Tom O'Shea.

Llongyfarchiadau i'r ieuenctid ar eu llwyddiant mewn cystadlaethau amrywiol yn Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las ym mis Awst.

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i'r rhai sydd yn dechrau pennod newydd yn eu bywyd yn dilyn eu arholiadau yn yr ysgol neu mewn coleg.

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Meirion Morgan ar ddathlu ei ben-blwyd yn 90 ar ddiwrnod olaf ym Medi.

Newyddion Ebenezer



Cofion

Anfonwn ein dymuniadau gorau at ein aelodau a'n cyfeillion yn Ebeneser. Mae'n braf cael bod yn ôl yn cyd-addoli ar brynhawn Sul a mwynhau cymdeithas â'n gilydd.

Anfonwn ein cofion at y rhai sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi ac sydd yn methu ag ymuno yn y gwasanaethau. Rydym yn cofio'n gynnes iawn atoch.

Gwasanaethau mis Hydref

Hydref 4 - Gwasanaeth Cymun

Hydref 18 - Gwasanaeth Diolchgarwch

Bydd y gwasanaethau o dan arweiniad ein Gweinidog Y Parch Eifion Roberts ac am chwarter wedi 2 o'r gloch.

Golygyddion y mis hwn yw Sharon ac Arwel. Cyfraniadau ar gyfer rhifyn TACHWEDD at Hywel Lloyd erbyn dydd Sul, 18 Hydref, os gwelwch yn dda.

Chwe Stori Fer

Unwaith penderfynodd y pentrefwyr weddio am law. Ar ddiwrnod y cwrdd gweddi, ymgasglodd yr holl bobl, ond dim ond un bachgen ddaeth ag ymbarél. Dyna ffydd.

Pan dych chi'n taflu babanod yn yr awyr, maen nhw'n chwerthin am eu bod nhw'n gwybod y byddwch chi'n eu dal nhw. Dyna ymddiriedaeth.

Bob nos fe awn ni i'n gwlâu heb unrhyw sicrwydd y byddwn ni'n deffro yn y bore, ond eto fe osodwn ni'n larymau. Dyna obaith.

Rydyn ni'n cynllunio pethau mawr ar gyfer yfory heb wybod dim oll am y dyfodol. Dyna hyder.

Rydyn ni'n gweld y byd yn dioddef, ond eto, rydyn ni'n priodi a chael plant. Dyna gariad.

Gwisgai un gŵr hŷn grys ag arno'r geiriau 'dw I ddim ynn 80. Dwi'n 16 gyda 64 blwyddyn o brofiad. Dyna 'agwedd'.

Llenwch bob munud â ffydd, gobaith, ymddiriedaeth, hyder, cariad ac 'agwedd'!

Brian Bilston

Ddiwedd Medi fe fu'r bardd Saesneg Brian Bilston yn perfformio yng Nghanolfan y Celfyddydau. Mae o'n fardd eithriadol o 'glyfar', doniol ac egwyddorol.

Beth amser yn ôl mentrais drïo cyfieithu'r gerdd hon ganddo.

Darllenwch chi fel y byddech chi'n darllen unrhyw gerdd arall. Wedyn darllenwch chi am yn ôl, linell wrth linell, nes eich bod chi'n cyrraedd yn ôl i'r dechrau, ond fod y neges yn wahanol iawn erbyn hynny. RAJ

Na dydyn nhw ddim angen ein help ni
Felly paid a dweud wrtha i
Gallai'r wynebau hagr hyn berthyn i ti neu fi
Tae na dro di bod yn y byd
Dan ni angen gweld eu hyd a'u lled
Yn griaridymys a sgymbags
Yn faw isa'r doman
A bom fyny'u llawes
Miloedd o ladron ar lanio
Does dim
Croesawu
Ddylen ni eu
Gyrru nôl
Allen nhw ddim
Rhannu'n bwyd
Rhannu'n haelwydydd
Rhannu'n gwledydd
Yn hytrach, awn ati:
Codwn wal i'w cadw allan
Dio ddim yn iawn dweud
Mae rhain yn bobl, jyst fel ni,
Fod rhaid cael dy eni yma i berthyn
Paid a bod mor wirion â chredu
Gallwn droi y byd a'i ben i waered

Pryd fuoch chi'n wirioneddol oer ddiwethaf? Neu mewn tywyllwch dudew? Pryd weloch chi'r wawr yn torri?

Mae 'na rhyw flinder wedi dod drosta'i yn ddiweddar. Mae'r tymhorau'n troi, ond mae eu rhythm yn fwyfwy anodd ei adnabod. Cawsom haf hydrefol, a'r dail yn crino ac yn cwmpo cyn eu pryd; bellach, wrth adael yr haf, mae'r tyfiant yn ymddangos yn wanwynol. Eto i gyd, mae dieithrwch y tymhorau'n mynd ymhellach na'r tywydd. Wrth i fwy o boblogaeth y byd symud o'r wlad i drefi a dinasoedd, i ba raddau mae'r tywydd, y tymhorau neu'r hinsawdd yn ein cyffwrdd mewn gwirionedd?



Am filenia, ein perthynas â natur oedd craidd ein bodolaeth. Fel cyw anifail mewn praid, roedd popeth o'n cwmpas yn deulu ac yn fygythiad, yn gysur ac yn ddirgelwch. Yn fychan yng nghanol y greadigaeth, daethom i ddeall dydd a nos, haul a lleuad, newid ac ailadrodd y tymhorau, a dawnys araf y sêr. Tan yn lled ddiweddar, roedd y tywydd yn rheoli pob agwedd ar fywyd: bwyta neu lwgu, symud

neu aros, cysgodi, hela neu bwytho dillad.

Wrth geisio deall ein lle rhwng bod yn frenin yr anifeiliaid ac yn llychyn dinod, fe ddechreuon ni chwilio am y dwyfol. Yn ein diniweidrwydd, fe ddefnyddion ni natur i egluro'r greadigaeth, heb ddychmygu bod y coed, y cen, y ffwng a'r anifeiliaid yn meddwl: 'pwy ydy'r creaduriaid rhyfedd a symudodd i mewn drws nesa?'

Un o'r delweddu mwyaf trawiadol yn y mythau hyn yw crwban y môr, sydd mewn sawl traddodiad yn cynnal y ddaear ar ei gragen. Prin y gallai'r cyfarwyddiaid cynharaf wybod bod crwbanod wedi teithio'r cefnforoedd ers 120 miliwn o flynyddoedd, ymhell cyn ffurfio'r Himalea, nac y byddai eiliadau byr ein bodolaeth ni'n newid eu byd mor ddirugaredd.

Mae ein llongau anferth yn eu rhwydo ac yn chwalu eu cregyn fel melons. Mae cynhesu'r moroedd hefyd yn tarfu ar eu bywyd: mae rhyw y crwbanod bach yn dibynnu ar dymheredd y dŵr wrth ddeor— o dan 31.5°C, gwrywod; uwch na hynny, benywod. Wrth i'r môr gynhesu, mae poblogaeth sydd eisoes yn prinhau'n troi'n fwyfwy benywaidd.

Yn fwy symbolaidd fyth, mae greddf miliynau o flynyddoedd yn peri i'r rhai bach droi at olau'r lleud i ganfod y môr. Ond erbyn hyn, golau stryd yw'r goleuni cyntaf a welant, gan eu harwain at eu tranc ac y tarmac yn hytrach nag i ddiogelwch y tonnau. Ar ôl 120 miliwn o flynyddoedd, mae crwban y môr dan fygythiad. Mae'r creadur a fu'n cynnal y byd mewn myth wedi troi'n ddameg am y byd go iawn.

Rydyn ni wedi ymbellhau oddi wrth natur. Rydyn ni'n goleuo pob tywyllwch, yn cynhesu pob oerfel, yn oeri pob gwres ac yn cysgodi rhag pob awel. Gyrrwn drwy'r glaw, a bwytawn gnydau o bedwar ban byd ar unrhyw adeg. Gall unrhyw ddiwrnod deimlo fel unrhyw dymor, ac unrhyw awr fel unrhyw ran o'r dydd.

Wrth feistroli grymoedd natur i fwydo ein cyfleustra a'n hunanoldeb, fe gollon ni olwg ar ryfeddod y byd a'n gallu i ryfeddu at ei fawredd anesboniadwy. Nid yw'r byd ei hun yn dod i ben; ein lle ni ynddo fo sydd mewn perygl. Ella mai un ffordd o droi'r llanw ydy i ail-ddarganfod ein perthynas ni â'r greadigaeth— ei gerwinder a'i haelioni, ei rhythmau a'i dirgelwch—a rhyfeddu unwaith eto at y Grym cariadus a'i creodd.


RAJ - Cyhoeddwyd yn wreiddiol yng nghylchlythyr Cristnogaeth 21

Prysurdeb y Clwb Sul

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Clwb Sul ar y Sul cyntaf ym Medi. Yn ystod y gwyliau Haf buom yn cynllunio ar gyfer y tymor gan gyflwyno rhai newidiadau. Ar ôl cyfnod hir o arwain y grwp ieuentid, dymuniad Gwennan a Menai oedd rhoi'r gorau iddi. Diolch yn fawr iawn i'r ddwy am eu cyfraniad arbennig a'u hymrwymiad ar hyd y blynyddoedd.

Mae'n dda gennym adrodd fod rhai rhieni ac aelodau'r capel wedi cytuno i gymryd at un Sul yn eu tro. Thema'r hanner tymor cyntaf yw geiriau'r Iesu Myfi yw .. gan ddechrau gyda Myfi yw'r bugail da, pan ddaeth Gareth Owen atom. Roedd ganddo ffon fugail wedi ei cherfio i'w dangos a oedd yn sail i waith celf yn defnyddio sialc Derbyniodd Gareth y ffon fugail yn anrheg gan gyfaill ar ei benblwydd arbennig yn ddiweddar.

Cafwyd cyfle ar Sul arall i ddefnyddio cyfarpar chwaraeon bwrdd a oedd yn eiddo i'r Clwb Ieuentid flynyddoedd yn ôl a datblygu sgiliau cymdeithasu, a cydweithio'n deg - ac wrth gwrs mwynhau! Roedd y rhain yn elfennau yng ngweinidogaeth yr Iesu.





Myfi yw
bara'r bywyd
oedd ail
thema'r
tymor.
Cynhaliwyd
Gwasanaeth
Teulu neu
(Gwasanaeth

pawb gyda'i gilydd.) Cyflwynwyd y darlenniadau gan y plant, a thrwy gyfrwng fidio a chyflwyniad i'r Cymun gan Eifion a oedd yn ystyrlon i'r plant a'r ieuenctid gwahoddwyd pawb o bob oed i gyfranogi o'r cymun. Roedd y geiriau oedd i'w gweld ar y sgrin: COFIO, CYHOEDDI (dweud am Iesu), BYW a DILYN IESU heddiw a GWEDDIO am HELP yn arweiniad i bob un ohonom oedd yn bresennol.



Meddyliwch am y peth ...

Dych chi'n cofio'r dyfyniad rannodd Watcyn James efo ni yn ôl yn yr Haf?

Gras *yw peidio cael yr hyn rydyn ni'n haeddu'i gael*

Trugaredd *yw cael yr hyn dydyn ni ddim yn haeddu'i gael.*

Petae biliwnydd yn talu 99% o dreth fe fyddai ganddynt £10,000,000 ar ôl.

Gweddi

Gweddi am Obaith

Dduw gobaith,
Gyda ti, does dim byd yn amhosib.
Mae dy addewidion yn parhau,
Mae dy ysbryd yn ein cynnal.
Sefydla ynom obaith i'th fyd;
Gobaith sy'n ein symud,
Fel tân ym mêr ein hesgyrn,
Fel blaguryn yn tyfu o'r pridd,
Fel nant sy'n byrlymu'n barhaus.
Meithrin ynom weledigaeth ar gyfer
newid.
Ennyn ynom awydd i sicrhau cyfiawnder,
I droi'n gobaith yn weithred,
Gwneler dy ewyllys.

Amen.

Gweddi oddi ar wefan Cymorth Cristnogol

Cyfarfodydd



Cynhelir Cinio Bara a Chaws
er budd Cymorth Cristnogol
yn Neuadd Eglwys
Llanbadarn ddydd Llun, 5
Hydref yn Ffestri'r Morfa
rhwng 12.00 a 1.30pm.
Croeso cynnes i bawb

Pwyllgor Cenhadol Hundriaedth Ceredigion a Gogledd Penfro

Cynhelir cyfarfod ar Ddydd Sadwrn 3ydd Hydref 2026
am 2 o'r gloch yng Nghapel Elim, Llanddeiniol

Bydd Sarah Morris yn cyflwyno'r llyfr thema newydd *Gras
ein Harglwydd Iesu Grist* a gwaith elusennol Golau Gras.
Bydd y defosiwn yn seiliedig ar y Gwasanaeth sydd wedi ei
gynnwys yn y llyfr.

Y Gymdeithas am 7.00 o'r gloch yn y Ffestri

12 Hydref – Eirian Gravell – atgofion gwaith nyrs
arbenigol haemotoleg

26 Hydref – Diolchgarwch yng nghmwni Delyth
Morgans Phillips

9 Tachwedd – Jane a Gwen Aaron – dod i nabod
dwyr chwaer

**Cymdeithas Gweddi a Choffi –
bore Mawrth am 10.30 yn y Festri ac
wedyn am 11 o'r gloch ar Zoom**

Man Cynnes –

Dydd Mercher 11:00-2:00 yn y Festri

**Astudiaeth Ffydd a Phaned –
prynhawn Gwener am 2 o'r gloch ar Zoom**

Annwyl bawb,

Gwirfoddolwyr llestri Cymun

**Dwi'n chwilio am wirfoddolwyr i olchi'r gwydrau
Cymun ar Sul cyntaf o'r mis. Oes gennych
ddiddordeb? Llenwch y rhestr yn y cyntedd – neu
rhowch wybod i mi.**

Diolch,

Menai

Suliau Hydref

Blaenor y mis: Eleri Davies

4 Hydref – Eifion Roberts (Cymun)

11 Hydref – Delyth Morgans Phillips

18 Hydref – Gwasanaeth Diolchgarwch – Eifion Roberts

25 Hydref – D. Densil Morgan

Blodau – Hydref

4 Hydref – Valerie Ann Jones

11 Hydref – Rocet Arwel Jones (Cyfraniad at elusen)

18 Hydref – Nia a Meurig Royles

25 Hydref – Robin Huw Bowen (Cyfarniad at elusen)

**Gwasanaeth Diolchgarwch o dan arweiniad Y
Clwb Sul**

Bore Sul, Hydref 18 am 10 o'r gloch

Casgliad tuag at Cymorth Cristnogol